

Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb (AEDCh)

Fersiwn 3.6 Mai 2017

Diben yr asesiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth gytbwys i gefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau a hyrwyddo dulliau gwell o weithio yn unol â chydraddoldeb (Deddf Cydraddoldeb 2010), hyrwyddo'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), datblygu cynaliadwy (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), a phedwar paramedr y drafodaeth ynghylch tegwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd (Adroddiad Llawn CTC i'r Cyngor 2013).

Cwblhawyd gan: Kirsty Jones

Rôl: Swyddog Datblygu,
Gwybodaeth ac Addysg

Pennaeth Gwasanaeth: Sarah Morgan

Dyddiad: 05/02/2021

Rwy'n cadarnhau bod y Pennaeth Gwasanaeth uchod wedi cymeradwyo cynnwys yr asesiad hwn

Ydw / Nac ydw

Ar ôl cwblhau'r Asesiad hwn, eich cyfrifoldeb chi fydd ei gyflwyno i
impact.assessment@newport.gov.uk

1. Enw a disgrifiad o'r polisi / cynnig sy'n cael ei asesu. Amlinellwch ddiben y polisi.

Y diben yw ceisio caniatâd i fwrw ymlaen â chynnig ad-drefnu ysgolion i gynyddu capasiti Ysgol Bryn Derw gan 28 lle, a thrwy hynny gynyddu capasiti'r ysgol o 68 i 96 lle o fis Ebrill 2022.

Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r galw cynyddol am ddarpariaeth addysg arbenigol ym mhob rhan o ddinas Casnewydd. Mae'r galw am leoedd yn narpariaeth arbenigol ASA, yn sgil anghenion gwybyddus y disgyblion sydd yn ysgolion Casnewydd ar hyn o bryd, yn uwch na'r ddarpariaeth bresennol sydd ar gael yn y ddinas.

Bydd y cynnig hwn o fudd i ddisgyblion ym mhob rhan o Gasnewydd gan y bydd yn cynnig cyfleusterau ychwanegol i roi cymorth i blant ag anghenion arbenigol mewn amgylchedd addas a diogel.

Bydd y cyfnod ymgynghori yn galluogi Cyngor Dinas Casnewydd i holi barn pobl am y cynnig.

2. Amlinellwch sut gwnaethoch/byddwch yn ymgynghori â'r rhanddeiliaid a effeithir gan y polisi/cynnig hwn. Cyfeiriwch yn benodol at ganllawiau AEDCh sy'n ymwneud â dyletswyddau perthnasol o ran y Gymraeg.

Os rhoddir caniatâd i fwrw ymlaen â'r cynnig hwn, bydd y cynnig yn cael ei wneud yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol.

Mae'r broses ymgynghori yn gyfle i bobl ddysgu am y cynnig, gofyn cwestiynau a gwneud sylwadau a gaiff eu cofnodi a'u crynhoi mewn adroddiad ymgynghori. Caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a chaiff ei ystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu ar y ffordd ymlaen.

Bydd gwahoddiad i gymryd rhan yn y broses ymgynghori yn cael ei e-bostio at rieni, plant a staff yr ysgolion yr effeithir arnynt. Bydd e-byst rhanddeiliaid hefyd yn cael eu hanfon at bartneriaid addysg Cyngor Dinas Casnewydd. Caiff y cynnig ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd.

Cynhyrchir Fersiwn Crynodeb Bob Dydd Plant a Phobl Ifanc o'r ymgynghoriad hwn, ynghyd â fersiwn gyfeillgar i Anhwyldeirau'r Sbectrwm Awtistig (ASA). Mae'r fersiynau hyn yn ogystal â'r fersiwn lawn ar gael drwy wefan CDC <http://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/School-reorganisation/School-reorganisation.aspx>. Gallwch hefyd ofyn am gopiâu drwy anfon e-bost at school.reorg@newport.gov.uk neu drwy ffonio 01633 656656. Bydd y Cyngor yn ymgynghori â disgyblion yn Ysgol Bryn Derw trwy'r Pennaeth ac ar y cyd â SNAP Cymru.

Oherwydd y sefyllfa bresennol o ran iechyd y cyhoedd yn y Deyrnas Gyfunol, ac er mwyn helpu i gyfyngu ar ledaeniad y Coronafeirws, nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw ddogwyddiadau galw heibio cyhoeddus yn ystod yr ymgynghoriad hwn. Yn hytrach, gellir cyflwyno cwestiynau drwy e-bost i school.reorg@newport.gov.uk a bydd swyddogion y Cyngor yn rhoi ymateb o fewn 7 diwrnod fel rheol. Dylai hyn alluogi rhanddeiliaid i gyflwyno ymatebion ar sail gwybodaeth i'r ymgynghoriad. Bydd rhestr o *Gwestiynau ac Atebion Cyffredin* hefyd yn cael ei chyhoeddi ar dudalennau gwe'r Cyngor yn <http://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/School-reorganisation/School-reorganisation.aspx> os oes angen.

Gellir cyflwyno sylwadau a chwestiynau drwy e-bost neu drwy ddefnyddio ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad. Caiff platfformau megis Twitter a Facebook hefyd eu defnyddio i rannu gwybodaeth ar y newidiadau a gynigiwyd.

Yn dilyn ymgynghoriad, bydd Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd yn ystyried y safbwyntiau a fynegwyd cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio. Os penderfynir bwrw ymlaen, caiff hysbysiad statudol ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd a chaiff hysbysiadau eu rhoi ar gatiâu'r holl ysgolion yr effeithir arnynt. Bydd cyfnod yr hysbysiad statudol yn para am 28 diwrnod o'r dyddiad cyhoeddi, ac mae'n galluogi pobl i fynegi eu barn o ran cefnogi neu wrthwynebu'r cynnig. Os na cheir gwrthwynebiadau ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad statudol, bydd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau'n gwneud y penderfyniad terfynol o ran a ddylid bwrw ymlaen neu beidio. Os derbynnir unrhyw wrthwynebiadau ac na chânt eu tynnu'n ôl wedyn yn ystod y cyfnod hysbysu hwn, Cabinet y Cyngor fydd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol.

3. Pa wybodaeth/dystiolaeth sydd gennych am randdeiliaid? (E.e. barn, anghenion, defnydd o wasanaethau ac ati.) Nodwch yr holl dystiolaeth sy'n berthnasol yn eich barn chi.

Mae'r Cod Statudol yn amlinellu'r rhanddeiliaid allweddol y dylid ymgynghori â nhw fel rhan o'r broses hon sy'n cynnwys ysgolion, rhieni, aelodau etholedig, cynghorau cymuned ac undebau llafur. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr ac mae'r Cyngor wedi nodi ac ychwanegu at hyn o ganlyniad i adborth a dderbyniwyd yn sgil cynigion blaenorol.

Y rhanddeiliaid allweddol y mae'r cynnig yn ymwneud â hwy yw plant, teuluoedd a gofalwyr sydd ar hyn o bryd yn mynychu Ysgol Bryn Derw, a'r rhai a allai o bosibl fynychu'r ysgol fel y rhai yn y dosbarth cyfathrebu ym Meithrinfa Kimberley. Efallai y bydd gan breswylwyr sy'n byw yn ardal Adeilad Kimberley farn ynghylch y cynnig hefyd.

Anfonir gwahoddiad i ymgysylltu â'r broses ymgynghori at y grwpiau rhanddeiliaid canlynol:

- Y Pennaeth, athrawon, staff a chorff llywodraethu Ysgol Bryn Derw
- Disgyblion yn Ysgol Bryn Derw;
- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynd i Ysgol Bryn Derw;
- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid plant sy'n mynd i Ysgol Maes Ebwy;
- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu'r Dosbarth Cyfathrebu Meithrin;
- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid plant sy'n mynd i ddsbarthiadau mewn Canolfannau Adnoddau Dysgu ar draws y Ddinas;
- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid plant sydd â diagnosis ASA ac sy'n mynd i leoliadau y tu allan i'r Ddinas;
- Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu pob ysgol arall yng Nghasnewydd;
- Holl aelodau etholedig Cyngor Dinas Casnewydd;
- Pob Cyngor Cymuned yng Nghasnewydd;
- Gweinidogion Cymru;
- Aelodau'r Senedd (AS Cymru) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgol sy'n destun y cynnig;
- Awdurdodau Lleol eraill ledled rhanbarth Consortiwm De-ddwyrain Cymru, gan gynnwys adrannau trafndiaeth perthnasol;
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru;
- Yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Trefynwy;
- Yr Archesgobaeth Gatholig;
- Estyn;
- Undebau Llafur athrawon a staff sy'n cynrychioli athrawon a staff Ysgol Bryn Derw;
- Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent;
- Heddlu Gwent;
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru;
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Canolfan Serennu Casnewydd;
- SNAP Cymru;
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent;
- Gwasanaethau Ataliol.



Bydd ymgynghori â grwpiau rhanddeiliaid hefyd yn cynnwys disgyblion, gyda chymorth ysgolion yr effeithir arnynt trwy Microsoft Teams a thrwy holiaduron.

4. Effaith ar y Gymraeg a Chydraddoldeb

Nodwedd Warchoddedig	Effaith:			Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol 3. Helpu i leihau gwahaniaethu/aflonyddu/erlid yn anghyfreithlon?
	Cadarnha	Negyddol	Nid y naill na'r llall	
Oedran	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mae Ysgol Bryn Derw yn gwasanaethu'r ddinas gyfan ac yn helpu i ddarparu addysg i blant rhwng 3 a 19 oed â diagnosis o Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASA) ac anawsterau dysgu cysylltiedig, na all y ddarpariaeth prif ffrwd na'r Uned Adnoddau Dysgu (UAD) ddiwallu eu hanghenion yn effeithiol. Bydd ehangu'r ysgol yn darparu lleoedd ychwanegol i ddisgyblion ac yn lleihau'r angen i ddarparu lleoliadau y tu allan i'r sir i ddisgyblion sy'n byw yng Nghasnewydd. Felly bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar blant ag ASA trwy gynyddu'r ddarpariaeth o amgylchedd dysgu cyfoethog y mae Estyn yn ei ystyried yn 'rhagorol' mewn 4 allan o 5 maes arolygu.
Anabledd	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mae Ysgol Bryn Derw yn gwasanaethu'r ddinas gyfan ac yn helpu i ddarparu addysg i blant rhwng 3 a 19 oed â diagnosis o Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASA) ac anawsterau dysgu cysylltiedig, na all y ddarpariaeth prif ffrwd na'r Uned Adnoddau Dysgu (UAD) ddiwallu eu hanghenion yn effeithiol. Bydd ysgol fwy yn lleihau'r angen i ddarparu lleoedd y tu allan i'r sir i ddisgyblion sy'n byw yng Nghasnewydd. Bydd y cynnig yn sicrhau y gall mwy o blant gydag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig ac anawsterau dysgu cysylltiedig gael eu haddysgu yng Nghasnewydd. Bydd y ganolfan loeren newydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio ag anghenion Anabledd. Felly bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar blant ag ASA trwy gynyddu'r ddarpariaeth o amgylchedd dysgu cyfoethog y mae Estyn yn ei ystyried yn 'rhagorol' mewn 4 allan o 5 maes arolygu.
Ailbennu rhywedd / trawsryweddol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchoddedig hon.

Nodwedd Warchoddedig	Effaith:			Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol 3. Helpu i leihau gwahaniaethu/aflonyddu/erlid yn anghyfreithlon?
	Cadarnha	Negyddol	Nid y naill na'r llall	
Priodas neu bartneriaeth sifil	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchoddedig hon.
Beichiogrwydd neu famolaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchoddedig hon.
Hil	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchoddedig hon.
Crefydd neu Gred neu ddiffyg cred	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchoddedig hon.
Rhywedd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchoddedig hon.
Cyfeiriadedd Rhywiol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchoddedig hon.
Y Gymraeg	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Bydd y plant a gaiff fudd o'r cynnig yn manteisio ar bob agwedd o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, gan gynnwys y Cwricwlwm Cymraeg. Nid yw'r cynnig yn effeithio ar gynlluniau'r Cyngor i ddatblygu a hyrwyddo darpariaeth Gymraeg ar draws y Ddinas. Cydnabyddir felly na fydd y cynnig hwn yn cyfrannu at dargedau'r Cyngor o ran Cymraeg 2050.

5 Sut mae eich cynnig wedi gwreiddio a blaenoriaethu'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ei ddatblygu?



Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Disgrifiwch sut.
 <p>Long Term</p> <p>Cydbwysu angen byrdymor ag anghenion hirdymor</p>	<p>Agorodd yr ysgol ym mis Medi 2017 gyda lle i 48 o ddysgwyr ar draws yr ystod oedran 3-19 ac ar hyn o bryd mae'n gallu cynnig lle i 68 o ddisgyblion yn dilyn adnewyddu adeilad yr Anecs ar y safle. Yn unol â ffigyrau CYBLD 2020, cofrestrwyd 69 o ddisgyblion fel rhai sy'n mynychu'r ysgol, sy'n golygu bod yr ysgol wedi'i gordanysgrifio. Ar hyn o bryd mae rhestr aros ar gyfer disgyblion sydd angen lleoliad ASA arbenigol yn ein Canolfannau Adnoddau Dysgu Cynradd Lleol. Rhaid i'r disgyblion hyn gael eu rhoi mewn darpariaethau y tu allan i'r sir, sy'n gostus ac a all fod gryn bellter i ffwrdd o gyfeiriad cartref y disgybl.</p> <p>Bydd ehangu'r ysgol yn helpu i leddfu costau darpariaeth y tu allan i'r sir yn y tymor hir, a gwneud defnydd effeithiol o gyfleuster addysg sy'n bodoli eisoes.</p>
 <p>Collaboration</p> <p>Cydweithio i gyflawni amcanion</p>	<p>Cynhelir ymgynghoriad statudol ffurfiol gyda'r cyfle i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid yn cael ei gefnogi ar bob cam gan AEDCh i ystyried yr effaith.</p> <p>Mae'r cynnig yn cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei gyflawni trwy ymgysylltiad llawn y Pennaeth yn Ysgol Bryn Derw a Swyddogion Cyngor Dinas Casnewydd.</p>



Cynnwys pawb
sydd â diddordeb a
cheisio eu barn

Bydd y rhanddeiliaid canlynol yn cael eu cynnwys yn y broses ymgynghori:

- Y Pennaeth, athrawon, staff a chorff llywodraethu Ysgol Bryn Derw;
- Disgyblion yn Ysgol Bryn Derw;
- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynd i Ysgol Bryn Derw;
- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid plant sy'n mynd i Ysgol Maes Ebwy;
- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu'r Dosbarth Cyfathrebu Meithrin;
- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid plant sy'n mynd i ddosbarthiadau mewn Canolfannau Adnoddau Dysgu ar draws y Ddinas;
- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid plant sydd â diagnosis ASA ac sy'n mynd i leoliadau y tu allan i'r Ddinas;
- Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu pob ysgol arall yng Nghasnewydd;
- Pennaeth a Chorff Llywodraethu Ysgol Maes Ebwy;
- Holl aelodau etholedig Cyngor Dinas Casnewydd;
- Pob Cyngor Cymuned yng Nghasnewydd;
- Gweinidogion Cymru;
- Aelodau'r Senedd (AS Cymru) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgol sy'n destun y cynnig;
- Awdurdodau Lleol eraill ledled rhanbarth Consortiwm De-ddwyrain Cymru, gan gynnwys adrannau trafnidiaeth perthnasol;
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru;
- Yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Trefynwy;
- Yr Archesgobaeth Gatholig;
- Estyn;
- Undebau Llafur athrawon a staff sy'n cynrychioli athrawon a staff Ysgol Bryn Derw;
- Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Casnewydd
- Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent;
- Heddlu Gwent;
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru;
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Canolfan Serennu Casnewydd;
- SNAP Cymru;
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent;
- Gwasanaethau Ataliol.

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Disgrifiwch sut.
	Yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol, caiff Adroddiad Ymgynghori ei baratoi a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.
 <p>Prevention</p> <p>Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu</p>	Rhagwelir y bydd galw parhaus am leoedd yn Ysgol Bryn Derw ledled Casnewydd. Bydd cynyddu'r ddarpariaeth yn lleihau nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir yn y dyfodol a hefyd yn helpu mwy o ddisgyblion i gael eu haddysgu yn y ddinas.
 <p>Integration</p> <p>Ystyried yr effaith ar bob nod llesiant ar y cyd ac ar gyrrff eraill</p>	<p>Bydd ymgynghoriad statudol ffurfiol yn mynd rhagddo a chaiff ei gefnogi ar bob cam gan AEDCh i ystyried yr effaith. Mae'r cynnig hwn yn cefnogi Nodau Llesiant "Cymru ffyniannus", "Cymru fwy cyfartal" a "Chymru â chymunedau cydlynol" ac nid yw'n cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r Nodau Llesiant eraill.</p> <p>Hefyd, mae'r cynnig hwn yn cefnogi Amcan Llesiant Cyngor Dinas Casnewydd i "wella sgiliau, deilliannau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth".</p> <p>Barnwyd bod llesiant ac agweddau at ddysgu yn rhagorol yn Ysgol Bryn Derw. Bydd yr adeilad a adnewyddwyd yn cael ei gynllunio gyda mewnbwn gan yr ysgol i sicrhau y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant disgyblion ac agweddau at ddysgu, yn unol â chwricwlwm y cyfnod sylfaen. Hefyd, gyda hwn yn gynnig i sefydlu canolfan Cyfnod Sylfaen bwrpasol, credwn y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant ac agweddau at ddysgu gan y bydd y safle gyfan yn briodol i'w hoedran.</p>

6 A fydd y cynnig/polisi'n cael effaith anghymesur ar ardal ddaearyddol benodol yng Nghasnewydd?

Mae Ysgol Bryn Derw yn ysgol sefydledig sy'n agored i ddisgyblion ledled y ddinas. Mae'r cynnig yn cefnogi datblygu cyfleusterau ychwanegol heb unrhyw effaith niweidiol ar ddarpariaeth yr ysgol, ac yn wir, ar ddarpariaeth unrhyw ysgol arall yn y ddinas. Bydd y cynnig hwn o fudd i ddisgyblion ym mhob rhan o Gasnewydd gan y bydd yn darparu cyfleusterau ychwanegol i gefnogi plant sydd ag anghenion arbenigol mewn amgylchedd priodol a diogel.

7 Sut mae'r cynnig/polisi'n berthnasol i'r paramedrau trafod ynghylch Tegwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd?

Paramedr 1 – Triniaeth gyfartal wrth gydnabod gwahaniaeth

Mae'r cynnig yn nodi bod ar y plant a effeithir gan y cynnig hwn angen addysg trwy ddull gwahanol sy'n rhoi'r un cyfleoedd iddynt fanteisio ar addysg gyfoethog a maethol yn yr un modd ag sydd gan bob plentyn arall yng Nghasnewydd.

Paramedr 2 – Rhwymedigaethau ar y cyd rhwng dinasyddion a'r llywodraeth

Bydd y broses dderbyn i Ysgol Bryn Derw'n seiliedig ar anghenion unigol yn dilyn asesiad gan y Tîm Cynhwysiant Addysg. Mae pob disgybl sy'n mynd i'r ysgol â datganiad Anghenion Addysgol Arbennig. Bydd y Cyngor yn ystyried dewis y rhieni wrth benderfynu a bydd yn ymgynghori â'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethu o ran priodoldeb y lleoliad. Mae'r system yn gofyn am ddealltwriaeth a chydweithrediad gan rieni, gofawyr a theuluoedd er mwyn i blant gael y lefel fwyaf priodol o addysg a gofal

Paramedr 3 - Cyd-ddibyniaeth a chydgyfnewid o fewn perthnasoedd cymunedol

Mae'n ymddangos y bydd buddion y cynnig yn cynnwys:

- Darparu lleoedd addysg arbenigol ychwanegol mewn ysgol bwrpasol briodol pan gredir na fyddai lleoliad mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir yn briodol;
- Lleoedd ychwanegol ar gael o bosib yn sgil hyn mewn Canolfannau Adnoddau Dysgu i gefnogi disgyblion sydd angen amgylcheddau prif ffrwd a gefnogir;
- Datblygu ased addysg sy'n bodoli eisoes;
- Lleihau nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, a chyfle i ddisgyblion sy'n mynd i ddarpariaethau y tu allan i'r sir ar hyn o bryd gael eu hailintegreiddio yn ôl i'w hardal leol i barhau gyda'u haddysg;
- Gostwng yr amser teithio i ddisgyblion sy'n mynd i leoliadau y tu allan i'r sir;
- Darparu ystod ehangach o leoedd i ddisgyblion gydag ADY sy'n ei chael yn heriol bod mewn amgylcheddau swnllyd a phrysur.

Mae'r cynnig yn cynnwys defnyddio adeilad presennol Ysgol Feithrin Kimberley fel canolfan loeren i Ysgol Bryn Derw ar gyfer plant 3-7 oed. Cododd rhai aelodau o'r gymuned leol bryderon yn ystod yr ymgynghoriad ffurfiol o ran cyfuno ysgolion meithrin Kimberley a Fairoak a thrwy hynny adael y safle, ac y byddai hyn yn golygu colled i'r gymuned. Mae'r cynnig yn darparu parhad ar y safle sy'n cael ei defnyddio i ddarparu addysg i rai o'n dysgwyr ieuengaf.

Paramedr 4 – Tryloywder ac atebolrwydd wrth wneud penderfyniadau

Mae'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r broses o wneud penderfyniadau yn dryloyw ac atebol o ran y wybodaeth a geir ynddi. Mae'n galluogi dinasyddion i gyfranogi'n effeithiol ac mewn modd democrataidd.

8. Effeithiau Cydraddoldeb a Chamau Gweithredu

Cwblhewch y cynllun gweithredu isod sy'n nodi'r camau a fydd yn cael/na fydd yn cael eu cymryd er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol y mae eich asesiad wedi'u nodi.

Effaith a nodwyd	Ar bwy y mae'n effeithio?	Beth wnewch chi i liniaru'r effaith? Os ydych yn bwriadu peidio â gweithredu, rhowch y rhesymau dros y penderfyniad hwn	Pwy sy'n gyfrifol?
Y Gymraeg	Disgyblion	Mae Ysgol Bryn Derw yn ysgol arbennig cyfrwng Saesneg a gynhelir gan y gymuned. O ganlyniad, nid yw'r cynnig yn effeithio ar gynlluniau'r Cyngor i ddatblygu a hyrwyddo darpariaeth Gymraeg ar draws y Ddinas. Cydnabyddir felly na fydd y cynnig hwn yn cyfrannu at dargedau'r Cyngor o ran Cymraeg 2050. Fodd bynnag, bydd y plant a gaiff fudd o'r cynnig yn manteisio ar bob agwedd ar y Cwricwlwm Cenedlaethol, gan gynnwys y Cwricwlwm Cymraeg.	Cyngor Dinas Casnewydd

9. Monitro, gwerthuso ac adolygu

Caiff unrhyw gwestiynau neu sylwadau a wneir drwy gydol y broses eu cofnodi a'u crynhoi mewn adroddiad ymgynghori. Caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a chaiff ei ystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu ar y ffordd ymlaen.

Yn dilyn ymgynghoriad, bydd Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd yn ystyried y farn a fynegwyd cyn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio. Os penderfynir parhau, cyhoeddir hysbysiad statudol yn y wasg leol ac yn yr ysgol.

Bydd cyfnod yr hysbysiad statudol yn para am 28 diwrnod o'r dyddiad cyhoeddi, ac mae'n galluogi pobl i fynegi eu barn o ran cefnogi neu wrthwynebu'r cynnig.

Os na cheir gwrthwynebiadau ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad statudol, bydd Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid bwrw ymlaen neu beidio. Os ceir gwrthwynebiadau, caiff y penderfyniad terfynol ei gyfeirio at Gabinet y Cyngor.

10. Cynnwys Pobl

Mae'r broses ymgynghori yn gyfle i bobl ddysgu am y cynnig. Bydd y cynnig ar gael ar-lein yn Gymraeg a Saesneg, drwy wefan Cyngor Dinas Casnewydd, e-bost a chyfryngau cymdeithasol, ac fel copi caled.

Gellir cyflwyno cwestiynau ar unrhyw adeg yn ystod y broses ymgynghori ac ymatebir iddynt o fewn 7 diwrnod – bydd hyn yn disodli'r sesiynau galw heibio arferol oherwydd y sefyllfa bresennol o ran iechyd y cyhoedd.

Caiff unrhyw gwestiynau neu sylwadau a wneir drwy gydol y broses eu cofnodi a'u crynhoi mewn adroddiad ymgynghori. Caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a chaiff ei ystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu ar y ffordd ymlaen.